**PWYLLGOR CYFLE CYFARTAL EOC-03-00(p.2)**

| | |
|---|---|
| **Dyddiad:** | 13 Ebrill 2000 |
| **Amser:** | 9.30am |
| **Lleoliad:** | Ystafell Bwyllgora 2, Adeilad y Cynulliad Cenedlaethol |
| **Teitl:** | **Adroddiad y Tasglu ar Hawliau'r Anabl - Diweddariad** |

**Pwrpas :**

Adrodd i'r Pwyllgor ar y modd y mae Adroddiad y Tasglu ar Hawliau'r Anabl yn dod yn ei flaen o dan y teitl "From Exclusion to Inclusion". Gellir canfod yr adroddiad ar www.disability.gov.uk.

**Cefndir**

Yng nghyfarfod y Pwyllgor Cyfle Cyfartal ar 3 Chwefror 2000, trafodwyd papur ar Adroddiad y Tasglu ar Hawliau'r Anabl (EOC-01-00 (tud.2)). Gwahoddodd y Prif Ysgrifennydd y Pwyllgor i gymryd arweiniad mewn cadw golwg ar ei weithrediad.

Roedd y Pwyllgor yn awyddus i weld newidiadau go iawn os y cytunent i gadw golwg ar yr adroddiad. Fel cam cyntaf, comisiynwyd papur ar weithredu argymhellion y Tasglu yng Nghymru ar gyfer y cyfarfod presennol.

**Ystyriaeth:**

Cyfeirir at yr ymatebion i'r Adroddiad yn yr adran hon. Tra bod y prif ganolbwynt ar waith presennol ac arfaethedig swyddogion y Cynulliad, cynhwysir argymhellion y Llywodraeth a blaenoriaethau'r prif fudiadau anabledd yng Nghymru ble y maent yn ychwanegu at y darlun cyflawn presennol.

Gofynnwyd i'r holl Benaethiaid Is-adrannau wneud sylwadau ar argymhellion allweddol yr adroddiad ble y maent yn cyfeirio at eu maes hwy. Allan o 57 cais, derbyniwyd 44 ateb. Roedd 19 o'r rhain yn ddi-ganlyniad er, yn achos rhai, rhoddwyd cefnogaeth gadarnhaol ar y cyfan i'r Adroddiad. Mynegai rhai atebion eraill bryder am lwyth ariannol yr argymhellion neu faterion mwy technegol eraill. Yn dilyn, ceir rhai o'r awgrymiadau mwy cadarnhaol a gweithgareddau presennol y Cynulliad sy'n ymwneud â'r adroddiad. Ble y mae sylwadau'n cyfeirio at argymhellion penodol, cynhwysir y rhif fel croesgyfeiriad i'r adroddiad, lle bydd angen.

***Addysg***

- Mae’r Is-adrannau Cefnogi Disgyblion ac Addysg Bellach ac Uwch yn cysylltu’n agos â’r Adran dros Addysg a Chyflogaeth ar ddau ddarn o ddeddfwriaeth sylfaenol : mesurau "Anabledd mewn Addysg" a "Dysgu a Sgiliau".
- Mae’r Dr. Kevin Fitzpatrick, Comisiynydd Cymru ar Hawliau Anabledd wedi’i gwneud yn glir mai ei flaenoriaeth bersonol yw gweithio tuag at addysg gwbl gynhwysol yn yr ysgol ac ar lefel drydyddol.
- Mae Anabledd Cymru yn galw ar y Cynulliad i osod terfynau amser yng Nghymru i wneud ysgolion yn rhai mwy hwylus i gael mynediad iddynt.
- Mae Anabledd Cymru am i’r Cynulliad ystyried comisiynu ACCAC i ddatblygu modiwl cyfartaleddau i’w gynnwys yn rhan Addysg Bersonol a Chymdeithasol y cwricwlwm. Hoffai’r Cynulliad i Anabledd Cymru ariannu cynllun i annog ysgolion i gynnal archwiliad ar fynediad.
- Mae’r Is-Adran Gweinyddu Ysgolion yn awgrymu annog Awdurdodau Addysg Lleol i wneud datganiad cadarnhaol ar gynnwys anabledd yn eu Cynlluniau Strategol Addysg.
- Awgrymwyd hefyd y dylid annog Awdurdodau Addysg Lleol a Llywodraethwyr Cymru i recriwtio pobl ag anableddau yn Llywodraethwyr mewn ffordd fwy amlwg. Nid yw Awdurdodau Addysg Lleol ar hyn o bryd yn cofnodi rhyw, ethnigrwydd neu anabledd eu Llywodraethwyr presennol.

***Cyflogaeth***

- Mae’r Comisiwn ar Hawliau Anabledd wedi adnabod yr angen i leihau’r trothwy cyflogi yn y Ddeddf Gwahaniaethu ar Sail Anabledd o 15 i 2 berson fel blaenoriaeth iddynt.
- Mae’r Is-adran Hyfforddiant Cyllid a Rheoli wedi ysgrifennu i mewn i’w cytundebau â Chynghorau Menter a Hyfforddiant yr angen am ddatganiad cyfle cyfartal a chynllun i’w weithredu. Mae gofyn i’r Cynghorau Menter a Hyfforddiant sicrhau fod eu contractwyr a’u darparwyr yn hyrwyddo cyfle cyfartal.
- Mae’r Is-adran Materion Ewropeaidd yn cyfeirio at Amcan Un sy’n gofyn am hyrwyddo addasrwydd i waith. Mae’r canolbwynt ar helpu’r anabl ac mae’n cydnabod efallai y bydd angen cymorth i ddatblygu’r sgiliau angenrheidiol a’r hyder i dreiddio’r farchnad waith. (Cofnod 5.23)

***Mynediad i Nwyddau, Gwasanaethau ac Adeiladau***

- Mae’r Llywodraeth yn awyddus i annog cynllunio a chynhyrchu gwybodaeth yn well mewn ffurf hwylus. Mae’r Gangen Penodiadau Cyhoeddus yn dilyn y trywydd hwn gydag Anabledd Cymru ar gyfer eu holl ffurflenni cais. (Cofnodion 6.15-6.18)

***Teithio***

- Mae Anabledd Cymru yn cefnogi’r alwad yn yr adroddiad am i weithredwyr trafnidiaeth beidio â pharhau i fod wedi’u heithrio o’r Ddeddf Gwahaniaethu ar Sail Anabledd. Byddai yna’n galw ar i’r Cynulliad lunio stategaethau i greu a gwella cyfleusterau a gwasanaethau trafnidiaeth hwylus. (Cofnod 7.2)
- Mae’r Mesur Trafnidiaeth sydd ger bron y Senedd ar hyn o bryd yn cynnwys darpariaeth i osod Cynlluniau Trafnidiaeth Leol ar sail statudol. Mae Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru ar y cyfan yn gefnogol i fesurau megis gwella’r parth cerddwyr i’r anabl ond maent yn bryderus am y gost. (Cofnod 7.7)

***Yr Amgylchedd a Thai***

- Mae’r Is-adran Gynllunio ar hyn o bryd yn annog mynediad i’r anabl drwy eu Cyfarwyddyd Cynllunio presennol.
- Yn dilyn ymgynghoriad ag Anabledd Cymru, mae’r Is-adran Gwasanaethau Rheoli wedi penodi ymgynghorydd mynediad annibynnol i’r tîm cynllunio ar gyfer adeilad newydd y Cynulliad. Y nod yw mynd ymhellach na’r gofynion statudol ar fynediad ble bynnag y bo’n bosibl.
- Mae’r Llywodraeth wedi cytuno i ymgynghori ar adolygiad Rhan M o’r Rheoliadau Adeiladu ac ymchwilio i effeithlonrwydd presennol Rhan M. Mae’r Is-adran Adnewyddu Tai a Chymunedau yn gefnogol ac mae’n ceisio dylanwadu ar gwmpas yr ymchwil. (Cofnodion 8.1-8.4)
- Mae anghenion aelwydydd anabl yn elfen bwysig yn Strategaeth Tai’r Cynulliad. Hefyd, cefnogir yn gryf waith yr asiantaethau gofalu a thrwsio. Mae’r Joseph Rowntree Foundation wedi bod yn datblygu’r syniad o "Dai am Oes" drwy alluogi’r oedrannus a rhai sydd ag ystod eang o anableddau i aros yn eu cartrefi. Mae’r Cynulliad wedi sefydlu grp llywio i ymchwilio i ddatblygu’r syniad hwn yng Nghymru.
- Mae’r Is-adran Adnewyddu Tai a Chymunedau yn ymgorffori Cofnod 8.11 (cyplysu’r angen am dai â’r galw) i’r Strategaeth Tai Genedlaethol. Mae rhai cynghorau eisoes yn gwneud hyn, ond yn araf y mae’n dod yn ei flaen.
- Mae’r Adran Trafnidiaeth, yr Amgylchedd a’r Rhanbarthau yn bwriadu gweithredu dau argymhelliad deddfwriaethol yn ei phapur ymgynghorol ar "Wella Hawliau Tramwy yng Nghymru a Lloegr" er mwyn gwella mynediad gan yr anabl i’r rhwydwaith mynediad. (Cofnod 8.13)

***Llywodraeth Leol, Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol***

- Mae Anabledd Cymru yn galw ar i’r Cynulliad fabwysiadu triniaeth fwy strategol gydag awdurdodau iechyd a lleol i annog cam mwy cadarnhaol tuag at faterion cyfartaledd i’r anabl.
- Mae’r Is-adran Strategaeth Iechyd am sicrhau ymglymiad y grwpiau cyfartaledd tuag at y cam gwneud polisi. Maent wedi cychwyn sgwrsio â’r Comisiwn Cydraddoldeb Hiliol ac maent am dargedu mudiadau anabledd yn 2000-2001.

- Mae Anabledd Cymru wedi awgrymu gwneud pob grant gan y Cynulliad i'r sector gwirfoddol yn amodol ar gynnwys mynediad i'r anabl.

**Cydymffurfio**

Wrth ystyried y camau gweithredu isod, dylai'r Pwyllgor gymryd sylw o'r anghenion a amlinellir yn adran 120 Deddf Llywodraeth Cymru.

**Gweithredu:**

Bod y Pwyllgor yn ystyried yr ymatebion i'r Adroddiad ac yn cytuno ar y gweithredu dilynol a argymhellir:

- Ble y sonir uchod am gyfarwyddyd presennol (cyfarwyddyd cynllunio, cytundebau Cynghorau Menter a Hyfforddiant), dylai'r Uned Polisi Cydraddoldeb archwilio'r cyfarwyddyd hwn gyda chymorth gan y mudiadau anabledd a chael gwybod a oes mecanwaith ymgynghori briodol ar gael.
- Ble y mae swyddogion eraill y Cynulliad neu grwpiau allanol wedi awgrymu gwelliant, dylai'r Uned Polisi Cydraddoldeb weithio'n agos â mudiadau anabledd i edrych ar ymarferoldeb y newidiadau a argymhellir.

**Swyddog Cyswllt:**

Jenny Howell, Uned Polisi Cydraddoldeb, PEP